# PAPURAU BUSNES

## 10 Tachwedd 1999

## Rhan 1 – Adran G

## Rhybuddion o Gynigion a Gwelliannau ar gyfer Dadleuon yn y Dyfodol

Cynigion a gyflwynwyd ar 4 Tachwedd 1999

**Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);** Bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 19.2, yn nodi cyllideb ddrafft gychwynnol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2000-01, 2001-2002 a 2002-03, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Iau, 4 Tachwedd gan yr Ysgrifennydd Cyllid, Edwina Hart **(NDM119VB**)

### Cynigion a gyflwynwyd 5 Tachwedd 1999

**Andew Davies ( Gorllewin Abertawe ) ;** Bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 22.33 yn cymeradwyo fersiwn ddrafft Rheoliadau Plaleiddiaid (Lefelau Uchaf o Waddodion mewn Cnydau, Bwyd a Phorthiant) (Cymru a Lloegr) 2000 y gosodwyd copi ohoni yn y Swyddfa Gyflwyno a'i dosbarthu i Aelodau ddydd Gwener 5 Tachwedd 1999**. ( NDM122VB )**

**Andew Davies ( Gorllewin Abertawe ) ;** Cynnig bod y Cynulliad yn cyfnewid ar unwaith Jocelyn Davies (Plaid Cymru) am Gareth Jones (Plaid Cymru) ar y Pwyllgor Cyfle Cyfartal. **(NDM123VB)**

Gwelliannau a Gyflwynwyd 8 Tachwedd 1999 mewn perthynas ag NDM119VB

1. Peter Black (Gorllewin De Cymru); **R**

Ychwaneger at y diwedd:

Dylai Pwyllgorau'r Cynulliad a'r Weithrediaeth, wrth roi ystyriaeth bellach i'r gyllideb ragarweiniol ddrafft, gofio bod angen lleihau maint dosbarthiadau plant 7-11 oed, lleihau maint y gwaith cynnal a chadw sy'n aros i'w wneud mewn ysgolion a lleihau amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau iechyd.

2. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru); **R**

Ar ôl y frawddeg sy’n gorffen "Edwina Hart", ychwaneger:

"Fodd bynnag, mae’n ofid i’r Cynulliad hwn:

- y bydd gostyngiad o £4.7 mewn adnoddau ar gyfer Ymddiriedolaethau’r NHS a’r Awdurdodau Iechyd ar adeg pan fo’r cyrff hyn yn profi anawsterau ariannol difrifol;
- na fydd digon o arian yn cael ei neilltuo i helpu’r rhai hynny sy’n dechrau arni fel ffermwyr; ac,
- nad yw’r £15 miliwn a neilltuwyd o’r Gronfa *Ffordd i Ffyniant* sydd i’w ddefnyddio fel arian cyfatebol ar gyfer Amcan Un yn arian ychwanegol, ond yn hytrach yn arian sydd wedi’i dynnu o gronfa sy’n bodoli eisoes ac yn arian sydd eisoes wedi’i glustnodi."

**3. Michael German (Dwyrain De Cymru);**

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**

Ychwaneger at y diwedd:

Yn galw ar Lywodraeth y DU i neilltuo arian ychwanegol ac arian newydd ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru sydd uwchlaw’r dyraniad a ddarparwyd gan Fformwla Barnett i alluogi’r Cynulliad i ddenu’r holl arian Amcan Un sydd ar gael yn 2000-01 ac yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

4. Dafydd Wigley (Caernarfon);

Ar ddechrau’r llinell gyntaf, dileer "Bod y Cynulliad" ac ychwaneger y canlynol:

"Ei bod yn ofid i’r Cynulliad nad yw’r gyllideb ddrafft yn gallu darparu arian ar gyfer rhai cynigion allweddol a argymhellwyd gan bwyllgorau’r Cynulliad ac eraill; yn nodi bod ymdrechion i adfywio Cymru yn cael eu rhwystro gan ddiffygion fformwla Barnett, polisïau llywodraeth y DU ar wariant cyhoeddus, cyfraddau llog a chronfeydd strwythurol Ewrop; yn cydnabod y byddai gweithredu’r egwyddor ychwanegedd a darparu digon o arian cyfatebol yn helpu i fynd i’r afael â’r anawsterau hyn ac mae’n galw ar y Prif Ysgrifennydd i gyflwyno sylwadau i lywodraeth y DU i’r perwyl hwn, ac